Cofnod o'r penderfyniadau a wnaed gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddydd Llun 19 Hydref 2026

Rhif Eitem Agenda	Pwnc	Cydraniad
1	Presenoldeb ac Ymddiheuriadau	Cynghorwyr yn bresennol: Dylan Rees (Cadeirydd); Mark Young (Dirprwy Gadeirydd); Tina Claydon; Paul Cunningham; Ann Davies; Jeff Evans; Chrissy Gee; Alan Hughes; John Brynmor Hughes; Gareth R Jones; Charlie McCoubrey; Gwynfor Owen; Arwyn Herald Roberts; Rondo Roberts; Gareth Sandilands; Gareth Williams; Siân Williams; Antony Wren; Paul Rogers; Carol Beard; Richard Everall Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Austin Roberts; Bryan Apsley; Ian Hodge; Chris Hughes; John Ifan Jones Absennol: Y Cynghorwyr Beverley Parry-Jones; Dale Selvester Hefyd yn bresennol: Prif Swyddog Gweithredol Dawn Docx; ACFO Justin Evans; ACFO Helen MacArthur; ACFO Anthony Jones; Dafydd Edwards, Ymgynghorydd; Gareth Owens, Clerc a Swyddog Monitro; Katie Owen, Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael; Steve Morris, Pennaeth TGCh; Llinos Evans, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol; Llinos Gutierez Jones, Pennaeth Adnoddau Dynol a Chymorth Busnes; Ruth Bateman, Hyrwyddwr Diwylliant; Diane Pritchard-Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Risg; Heledd Davies, Gwasanaethau Cyfieithu Atebol; Ffion Evans, Cynorthwy-ydd Gweithredol
2	Datganiadau o Fuddiant	Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant wedi'u datgan.
3	Hysbysiad o Faterion Brys	Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Atodol Drafft ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yn cael ei ddarparu o dan Faterion Brys ar ddiwedd y cyfarfod.
4	Cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac	i) Cymeradwyo cofnodion yr FRA o 20 Gorffennaf 2026 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.

Rhif Eitem Agenda	Pwnc	Cydraniad
	Achub a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2026	
5	Adroddiad Gweithgaredd Tanau Gwyllt	i) Nodwyd raddfa ac effaith gweithgarwch tanau gwyllt haf 2026; ii) Cydnabod cyfraniad personél y Gwasanaeth, asiantaethau partner, gwirfoddolwyr a chymunedau lleol; a iii) Cefnogi gwaith parhaus i ddal dysgu, cryfhau atal tanau gwyllt a gwytnwch, i adlewyrchu gofynion gweithredol ac ariannol sy'n dod i'r amlwg wrth gynllunio yn y dyfodol.
6	Adroddiad y Cadeirydd	i) Nodwyd y wybodaeth a ddarperir.
7	Diweddariad Canolfan Hyfforddi Hwb Awen	i) Nodwyd y cynnydd a wnaed ar brosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen; ii) Nodwyd y ffocws parhaus ar fforddiadwyedd ac opsiynau cyllido; ac iii) Nodwyd y camau nesaf sydd wedi'u cynllunio, cyn adroddiadau i'r Awdurdod yn y dyfodol.
8	Diweddariad Hyrwyddwyr Diwylliant	i) Nodwyd y cynnydd a wnaed drwy weithgaredd Hyrwyddwr Diwylliant dros y 12 mis diwethaf, a'r trefniadau a sefydlwyd i gynnal gwelliant diwylliant, gan gynnwys y Cynllun Gwella Diwylliant Strategol, Dangosfwrdd KPI Diwylliant, mecanweithiau ymgysylltu â staff, trefniadau monitro Arolwg Teuluoedd Tân a strwythurau llywodraethu cysylltiedig. ii) Gofynwyd i aelodau hefyd gefnogi monitro diwylliant sefydliadol trwy drefniadau llywodraethu presennol, gydag adroddiadau yn y dyfodol yn canolbwyntio fwyfwy ar ganlyniadau, effaith sefydliadol a thystiolaeth o welliant cynaliadwy.
9	Gosod Cyllideb 2027/28	i) Nodwyd y rhagdybiaethau sy'n llywio cyllideb 2027/28; ii) Nodwyd gylch gwaith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb; ac iii) Nodwyd yr amserlenni a'r gofynion ymgynghori.
10	Adroddiad Alldro Dros Dro Chwarterol Ch1 a Ch2	i) Nodwyd y sefyllfa ariannol ar gyfer refeniw a chyfalaf; a

Rhif Eitem Agenda	Pwnc	Cydraniad
		ii) Nodwyd fwriad yr Awdurdod i ofyn am gymorth gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys mewn perthynas â chostau eithriadol sy'n gysylltiedig â thanau gwyllt.
11	Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol Drafft 2027/28	i) Nodwyd gynnwys y cynllun arfaethedig ar gyfer 2027/28; ac ii) Cymeradwywyd lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus.
12	Cyflwyniad Astudiaeth Achos Atal ar Waith	i) Nowyd y wybodaeth yn y Cyflwyniad Astudiaeth Achos Atal ar Waith.
13	Adroddiad Blynyddol y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2025/26	i) Nodwyd gynnwys Adroddiad Blynyddol y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2026; a ii) Cymeradwywyd cyhoeddi Adroddiad Bwlch Cyflog Blynyddol rhwng y Rhywiau 2026 yn unol â gofynion cyfreithiol.
14	Cyfansoddiad	i) Cymeradwywyd newidiadau i'r Cyfansoddiad fel y dangosir yn Atodiad 1, yn amodol ar y diwygiad a ddisgrifir ym mharagraff 14.3.
15	Asesiad Perfformiad Blynyddol 2025/26	i) Nodwyd gynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2025/26; ac ii) Cymeradwyo Asesiad Perfformiad Blynyddol 2025/26 i'w gyhoeddi cyn y dyddiad cau statudol sef 31 Hydref 2026.
16	Materion Brys – Adroddiad Cydnabyddiaeth Atodol Drafft	i) Nodwyd y diweddariad; ii) Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y DBCC i gofnodi'n ffurfiol bryderon yr Awdurdod Tân a cheisio eglurhad ynghylch a ellid ailystyried y penderfyniad; ac iii) Y Clerc i gysylltu â chlercod yr awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru ynglŷn â'u priod swyddi.
17	Penodi Prif Swyddog Tân	i) Penodwyd Prif Swyddog Tân yn seiliedig ar argymhelliad y Panel Penodi.